



## **Côd Dedfrydu**

### **Un ffynhonnell ar gyfer ddeddf y weithdrefn dedfrydu**

1. Dros y 3 blynedd diwethaf, mae Comisiwn y Gyfraith wedi gweithio i gynhyrchu Côt Dedfrydu, er mwyn casglu gweithdrefn cyfraith dedfrydiad i un man, symleiddio'r gyfraith a darparu strwythur rhesymegol iddi, tra'n diddymu darpariaethau hen a diangen. Bydd y Côt Dedfrydu yn darparu tryloywder angenrheidiol i'r gyfraith, yn ogystal ag osgoi costau a chamgymeriadau sydd yn deillio o gymhlethdod y gyfraith bresennol.
2. Roedd prosiect y Côt Dedfrydu yn destun ymgynghori sylweddol. Fe wnaeth fersiwn ddrafft o'r Côt Dedfrydu bodoli fel testun ymgynghoriad dros 6 mis, rhwng 27 Gorffennaf 2017 a 26 Ionawr 2018. Yn ystod y cyfnod yma o 6 mis, fe wnaeth Comisiwn y Gyfraith gynnal nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus, a chyfarfuwyd gyda dros 1400 o farnwyr, ymarferwyr, academyddion ac aelodau o'r cyhoedd er mwyn trafod eu cynigion.
3. Serch hyn, ni wnaeth y fersiwn o'r Bil a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf gynnwys y nifer fechan o warediadau cyfiawnder ieuenctid oherwydd bod Adolygiad Charlie Taylor o'r system Gyfiawnder Ieuenctid yn parhau trwy gydol y cyfnod ddrafftio. Roedd disgwyliad y byddai rhai o'r argymhellion a gynhyrchir gan yr adolygiad yn arwain at ddeddfwriaeth newydd. Fe benderfynom, felly, er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o ddeunyddiau ac i osgoi dyblygiad, y dylid cadw allan o'r Côt Dedfrydu drafft fel y cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017 y darpariaethau a oedd yn debygol o gael eu newid.
4. Mae'r ymgynghoriad byr, atodol yma yn ymgynghori ar y nifer cyfyngedig o ddarpariaethau a gafodd eu cadw allan o fersiwn Gorffennaf 2017 o'r Côt Dedfrydu. Bydd yr ymgynghoriad yma yn para am 5 wythnos, o 23 Mawrth 2018 tan 27 Ebrill 2018. Cydnabyddir natur gyfyngedig y deunydd a ddefnyddir i gasglu barn ymgynghoreion a natur gyfyngedig newidiadau polisi ynghlwm â'r drafftio newydd ar sail hwn. Mae hefyd yn adlewyrchu'r angen i roi digon o amser i'r Cwnsler Seneddol i ddiwygio'r Côt drafft yn dilyn y barnau a fynegwyd gan ymgynghoreion yn y cyfnod rhwng cyhoeddiad yr Adroddiad a'r Bil terfynol yn ystod Haf 2018.

5. Rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod holl ddarpariaethau'r Côt Dedfrydu drafft yn cael eu craffu yn gyhoeddus, yn enwedig gan randdeiliaid sydd yn defnyddio'r darpariaethau yn rheolaidd. Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y darpariaethau hyn, byddwn hefyd yn trefnu nifer o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid i drafod y darpariaethau gydag arbenigwyr.

6. Byddai'r Côt yn:

- helpu atal dedfrydau anghyfreithlon trwy ddarparu un cyfeirbwynt ar gyfer cyfraith dedfrydu, trwy symleiddio nifer o ddarpariaethau cymhleth a chael gwared ar yr angen i gyfeirio at ddeddfwriaeth hanesyddol;
- arbed hyd at £255 miliwn dros y ddegawd nesaf trwy osgoi apeliadau diangen a lleihau'r oedi mewn dedfrydu sy'n gallu arafu system y llys;
- ail-ysgrifennu'r gyfraith mewn iaith fodern, gwella hyder y cyhoedd a chaniatáu i unigolion sydd ddim yn gyfreithwyr i ddeall dedfrydau yn haws;
- cael gwared ar yr haenau diangen o ddeddfwriaeth hanesyddol; a
- chaniatáu barnwyr i ddefnyddio'r grymoedd dedfrydu modern ar gyfer achosion cyfredol a hanesyddol fel ei gilydd, gan ei gwneud yn haws i ddelio gydag achosion a sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu yn well.

7. Ni fyddai'r Côt yn:

- newid uchafswm dedfrydau ar gyfer troseddau;
- gorfodi troseddwyr i wynebu cosb fwy llym na'r hyn a fyddai'n gallu cael ei osod adeg y drosedd;
- ymestyn darpariaethau'r dedfrydau lleiaf na chreu lleiafswm dedfrydau newydd;
- lleihau disgresiwn barnwrol; neu
- ailosod canllawiau dedfrydu na gwaith y Cyngor Dedfrydu.

8. Ceir cefnogaeth eang i'r prosiect wrth i Syr Brian Leveson, Llywydd Is-adran Mainc y Frenhines a Phennaeth Cyfiawnder Troseddol, Alison Saunders, Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Cymdeithas Bar Trosedd, Cymdeithas y Gyfraith a'r Cyngor Dedfrydu oll danlinellu'r angen i ddiwygio.

9. Meddai Syr Brian Leveson:

"Prosiect Codeiddio Comisiwn y Gyfraith yw'r ymdrech fwyaf arwyddocaol i egluro a symleiddio'r gyfraith ers degawdau. Daw ag arbedion go iawn a sylweddol a bydd yn lleihau'r risg o gamgymeriadau. Hyd yn oed yn bwysicach, trwy greu fframwaith deddfwriaethol sydd yn galluogi llysoedd i ddelio ag un darn o ddeddfwriaeth ar gyfer materion dedfrydu, dylai'r Côt sicrhau bod cyfreithiau dedfrydu yn parhau'n glir ac yn hygyrch ar gyfer y dyfodol."